OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2024 Rhif 854 (Cy. 133)

2024 No. 854 (W. 133)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2024

The Government of Maintained Schools (Training Requirements for Governors) (Wales) (Amendment) Regulations 2024

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013 ("Rheoliadau 2013") yn nodi'r gofynion hyfforddi ar gyfer llywodraethwyr mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

Mae Rheoliadau 2013 yn darparu bod yr hyfforddiant cyfredol y mae'n ofynnol i gadeirydd corff llywodraethu ei gwblhau wedi ei nodi mewn dogfen o'r enw "Cynnwys yr hyfforddiant ar gyfer cadeiryddion llywodraethwyr yng Nghymru" ("dogfen hyfforddiant ar gyfer cadeiryddion 2013"). Mae rheoliad 2(2)(a) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2013 er mwyn rhoi yn lle'r cyfeiriad at ddogfen hyfforddiant ar gyfer cadeiryddion 2013 gyfeiriad at y ddogfen hyfforddiant newydd i gadeiryddion o'r enw "Hyfforddiant i gadeiryddion llywodraethwyr yng Nghymru" a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024 ("dogfen hyfforddiant i gadeiryddion 2024"). Gellir ei chanfod ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

Mae Rheoliadau 2013 yn darparu bod y gofynion hyfforddiant ymsefydlu cyfredol ar gyfer llywodraethwyr wedi eu nodi mewn dogfen o'r enw "Cynnwys hyfforddiant ymsefydlu ar gyfer llywodraethwyr yng Nghymru" ("dogfen hyfforddiant ymsefydlu 2013"). Mae rheoliad 2(2)(b) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2013 er mwyn rhoi yn lle'r cyfeiriad at ddogfen hyfforddiant

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

The Government of Maintained Schools (Training Requirements for Governors) (Wales) Regulations 2013 ("the 2013 Regulations") set out the training requirements for governors at maintained schools in Wales.

The 2013 Regulations provide that the current training required to be completed by a chair of a governing body is set out in a document called "Content of the training for chairs of governors in Wales" ("the 2013 training for chairs document"). Regulation 2(2)(a) of these Regulations amends the 2013 Regulations to replace the reference to the 2013 training for chairs document with reference to the new chair training document called "Training for chairs of governors in Wales" published in July 2024 ("the 2024 training for chairs document"). It can be found on the Welsh Government website at www.gov.wales.

The 2013 Regulations provide that the current induction training requirements for governors are set out in a document called "Content of induction training for governors in Wales" ("the 2013 induction training document"). Regulation 2(2)(b) of these Regulations amends the 2013 Regulations to replace the reference to the 2013 induction training document with reference to the new induction training document

ymsefydlu 2013 gyfeiriad at y ddogfen hyfforddiant ymsefydlu newydd o'r enw "Hyfforddiant sefydlu i lywodraethwyr ysgolion yng Nghymru" a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024 ("dogfen hyfforddiant sefydlu 2024"). Gellir ei chanfod ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

Mae rheoliad 2(3) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod paragraff newydd (4) yn rheoliad 3 o Reoliadau 2013 i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol sy'n cynnal ysgol sicrhau y darperir yr hyfforddiant i gadeirydd am ddim. Mae rheoliad 2(4) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod paragraff newydd (7) yn rheoliad 4 o Reoliadau 2013 i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol sy'n cynnal ysgol sicrhau y darperir yr hyfforddiant ymsefydlu am ddim. Mae rheoliad 2(5) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod paragraff newydd (7) yn rheoliad 5 o Reoliadau 2013 i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol sy'n cynnal ysgol sicrhau y darperir yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion am ddim. Mae'r gofynion hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion ar gyfer llywodraethwyr wedi eu nodi mewn dogfen o'r enw "Hyfforddiant i lywodraethwyr ysgol yng Nghymru: deall rôl data o ran cefnogi hunanwerthuso a gwella mewn ysgolion", a chyfeirir ati yn y diffiniad o "yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2013. Gellir ei chanfod ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

Mae rheoliad 3(a) o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaeth arbed i sicrhau nad oes rhaid i gadeiryddion presennol cyrff llywodraethu gwblhau'r hyfforddiant i gadeirydd yn unol â dogfen hyfforddiant i gadeiryddion 2024 os ydynt eisoes wedi cwblhau'r hyfforddiant i gadeirydd sy'n ofynnol gan Reoliadau 2013 cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Mae rheoliad 3(b) o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaeth arbed i sicrhau nad oes rhaid i lywodraethwyr ysgol presennol gwblhau'r hyfforddiant ymsefydlu yn unol â dogfen hyfforddiant sefydlu 2024 os ydynt eisoes wedi cwblhau'r hyfforddiant ymsefydlu sy'n ofynnol gan Reoliadau 2013 cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Cynllunio Busnes a Llywodraethiant Addysg, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

called "Induction training for school governors in Wales" published in July 2024 ("the 2024 induction training document"). It can be found on the Welsh Government website at www.gov.wales.

Regulation 2(3) of these Regulations inserts a new paragraph (4) into regulation 3 of the 2013 Regulations to require the local authority that maintains a school to secure provision of the chair training free of charge. Regulation 2(4) of these Regulations inserts a new paragraph (7) into regulation 4 of the 2013 Regulations to require the local authority that maintains a school to secure the provision of the induction training free of charge. Regulation 2(5) of these Regulations inserts a new paragraph (7) into regulation 5 of the 2013 Regulations to require the local authority that maintains a school to secure the provision of the school performance data training free of charge. The school performance data training requirements for governors are set out in a document called "Training for school governors in Wales: understanding the role of data in supporting self-evaluation and improvement in schools", and is referred to in the definition of "the school performance data training" in regulation 2(1) of the 2013 Regulations. It can be found on the Welsh Government website at www.gov.wales.

Regulation 3(a) of these Regulations contains a saving provision to ensure that existing chairs of governing bodies do not have to complete the chair training in line with the 2024 training for chairs document if they have already completed the chair training required by the 2013 Regulations before these Regulations came into force.

Regulation 3(b) of these Regulations contains a saving provision to ensure that existing school governors do not have to complete the induction training in line with the 2024 induction training document if they have already completed the induction training required by the 2013 Regulations before these Regulations came into force.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Education Business Planning and Governance Division of the Welsh Government at Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ and on the Welsh Government website at www.gov.wales.

2024 Rhif 854 (Cy. 133)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2024

Gwnaed		*13 Awst 2024*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru		*15 Awst 2024*
Yn dod i rym		*9 Medi 2024*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 22(3) a (4) a 32(2) o Fesur Addysg (Cymru) 2011(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, dod i rym a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) (Diwygio) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 9 Medi 2024.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2013" yw Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013(**2**).

Diwygio Rheoliadau 2013

2.—(1) Mae Rheoliadau 2013 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(**1**) 2011 mccc 7. Gweler adran 31(1) o Fesur Addysg (Cymru) 2011 (mccc 7) am y diffiniadau o "rhagnodedig" a "rheoliadau".

(**2**) O.S. 2013/2124 (Cy. 207), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/1132 (Cy. 111), O.S. 2014/2225 (Cy. 214) ac O.S. 2021/367 (Cy. 112).

2024 No. 854 (W. 133)

EDUCATION, WALES

The Government of Maintained Schools (Training Requirements for Governors) (Wales) (Amendment) Regulations 2024

Made	*13 August 2024*
Laid before Senedd Cymru	*15 August 2024*
Coming into force	*9 September 2024*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 22(3) and (4) and 32(2) of the Education (Wales) Measure 2011(**1**), make the following Regulations.

Title, coming into force and interpretation

1.—(1) The title of these Regulations is the Government of Maintained Schools (Training Requirements for Governors) (Wales) (Amendment) Regulations 2024.

(2) These Regulations come into force on 9 September 2024.

(3) In these Regulations, "the 2013 Regulations" means the Government of Maintained Schools (Training Requirements for Governors) (Wales) Regulations 2013(**2**).

Amendments to the 2013 Regulations

2.—(1) The 2013 Regulations are amended as follows.

(**1**) 2011 nawm 7. See section 31(1) of the Education (Wales) Measure 2011 (namw 7) for the definitions of "prescribed" and "regulations".

(**2**) S.I. 2013/2124 (W. 207), amended by S.I. 2014/1132 (W. 111), S.I. 2014/2225 (W. 214) and S.I. 2021/367 (W. 112).

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "yr hyfforddiant i gadeirydd", yn lle "ym mis Medi 2013 o'r enw "Cynnwys yr hyfforddiant ar gyfer cadeiryddion llywodraethwyr yng Nghymru"" rhodder "ar wefan llyw.cymru(**1**) ym mis Gorffennaf 2024 o'r enw "Hyfforddiant i gadeiryddion llywodraethwyr yng Nghymru"", a

(b) yn y diffiniad o "yr hyfforddiant ymsefydlu", yn lle "ym mis Medi 2013 o'r enw "Cynnwys hyfforddiant ymsefydlu ar gyfer llywodraethwyr yng Nghymru"" rhodder "ar wefan llyw.cymru(**2**) ym mis Gorffennaf 2024 o'r enw "Hyfforddiant sefydlu i lywodraethwyr ysgolion yng Nghymru"".

(3) Yn rheoliad 3 (hyfforddiant i gadeirydd), ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) Rhaid i awdurdod lleol yng Nghymru sicrhau y darperir yr hyfforddiant i gadeirydd, am ddim, i bob cadeirydd corff llywodraethu ysgol a gynhelir gan yr awdurdod, o fewn y cyfnod a nodir ym mharagraff (1)."

(4) Yn rheoliad 4 (hyfforddiant ymsefydlu), ar ôl paragraff (6) mewnosoder—

"(7) Rhaid i awdurdod lleol yng Nghymru sicrhau y darperir yr hyfforddiant ymsefydlu, am ddim, i bob llywodraethwr mewn ysgol a gynhelir gan yr awdurdod, o fewn y cyfnod a nodir ym mharagraff (1)."

(5) Yn rheoliad 5 (hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion), ar ôl paragraff (6) mewnosoder—

"(7) Rhaid i awdurdod lleol yng Nghymru sicrhau y darperir yr hyfforddiant ar ddata perfformiad ysgolion, am ddim, i bob llywodraethwr mewn ysgol a gynhelir gan yr awdurdod, o fewn y cyfnod a nodir ym mharagraff (1)."

Darpariaethau arbed

3.—(1) Nid oes dim yn y Rheoliadau hyn yn gymwys i'r canlynol—

(a) cadeirydd corff llywodraethu a gwblhaodd yr hyfforddiant i gadeirydd sy'n ofynnol gan reoliad 3(1) o Reoliadau 2013 cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, neu

(b) llywodraethwr a gwblhaodd yr hyfforddiant ymsefydlu sy'n ofynnol gan reoliad 4(1) o Reoliadau 2013 cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

(1) www.llyw.cymru.
(2) www.llyw.cymru.

(2) In regulation 2(1) (interpretation)—

(a) in the definition of "the chair training" for "in September 2013 and called "Content of the training for chairs of governors in Wales"", substitute "on the gov.wales website(**1**) in July 2024 and called "Training for chairs of governors in Wales"", and

(b) in the definition of "the induction training" for "in September 2013 called "Content of induction training for governors in Wales"", substitute "on the gov.wales website(**2**) in July 2024 and called "Induction training for school governors in Wales"".

(3) In regulation 3 (chair training), after paragraph (3) insert—

"(4) A local authority in Wales must secure the provision of the chair training, free of charge, to every chair of a governing body of a maintained school it maintains within the period set out in paragraph (1)."

(4) In regulation 4 (induction training), after paragraph (6) insert—

"(7) A local authority in Wales must secure the provision of the induction training, free of charge, to every governor of a maintained school it maintains within the period set out in paragraph (1)."

(5) In regulation 5 (school performance data training), after paragraph (6) insert—

"(7) A local authority in Wales must secure the provision of the school performance data training, free of charge, to every governor of a maintained school it maintains within the period set out in paragraph (1)."

Saving provisions

3.—(1) Nothing in these Regulations applies to—

(a) a chair of a governing body who completed the chair training required by regulation 3(1) of the 2013 Regulations before the coming into force of these Regulations, or

(b) a governor who completed the induction training required by regulation 4(1) of the 2013 Regulations before the coming into force of these Regulations.

(1) www.gov.wales.
(2) www.gov.wales.

(2) Yn y rheoliad hwn—

(a) mae i "cadeirydd corff llywodraethu" yr ystyr a roddir gan reoliad 2(1) o Reoliadau 2013;

(b) mae i "llywodraethwr" yr ystyr a roddir gan reoliad 2(1) o Reoliadau 2013.

(2) In this regulation—

(a) "chair of a governing body" has the meaning given by regulation 2(1) of the 2013 Regulations;

(b) "a governor" has the meaning given by regulation 2(1) of the 2013 Regulations.

Lynne Neagle

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
13 Awst 2024

Cabinet Secretary for Education, one of the Welsh Ministers
13 August 2024

©℗Hawlfraint y Goron 2024

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2024

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39594-5

£5.78

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2024/854